# Y Cyfrifiad a'r Gyfraith

## Y cefndir cyfreithiol i gynnal cyfrifiad yn y DG

### Deddf y Cyfrifiad 1920

Dros yr 80 mlynedd ddiwethaf, ers pasio Deddf y Cyfrifiad 1920, mae'r gyfraith wedi cefnogi cynnal cyfrifiad ym Mhrydain Fawr. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn awdurdodi cynnal cyfrifiad o bryd i'w gilydd – ond heb fod yn amlach na phob pum mlynedd.

Mae'r Ddeddf yn rhoi awdurdod i'r Frenhines wneud Gorchymyn y Cyfrin Gyngor yn gorchymyn y dylid cynnal cyfrifiad. Mae'r Gorchymyn yn nodi dyddiad y cyfrifiad, y bobl y mae angen iddynt lenwi'r ffurflenni, a'r bobl y dylid cynnwys eu manylion ar y ffurflenni. Mae hefyd yn nodi'r wybodaeth y dylid ei rhoi ar y ffurflenni.

Yn dilyn datganoli, mae'n rhaid i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon gymeradwyo'r isddeddfwriaeth angenrheidiol sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer y cyfrifiadau yno.

Y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr a'r Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer yr Alban sydd â'r ddyletswydd o gynnal cyfrifiad ym Mhrydain Fawr. Mae trefniadau tebyg yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, lle mae gan y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Gogledd Iwerddon gyfrifoldeb o dan dermau Deddf y Cyfrifiad (Gogledd Iwerddon) 1969.

### Mae'r Cyfrifiad yn orfodol

Mae'n rhaid i bob cartref ddychwelyd ffurflen yn ôl y gyfraith. Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig nad yw pobl yn cael eu gadael allan – mae'r Cyfrifiad wedi'i gynllunio i fod yn gyfrif cyflawn o'r boblogaeth. Mae methiant i ddychwelyd ffurflen wedi'i chwblhau, neu roi gwybodaeth ffug, yn drosedd y gellir pennu dirwy o hyd at £1,000 amdani. Wedi'r cyfrifiad diwethaf ym 1991, erlynwyd a dirwywyd nifer fach o bobl.

YSTADEGAU GWLADOL

**Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol**
**Tel: 01329 813800**
**e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk**
**gwefan: www.statistics.gov.uk**

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**

1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
8. Y Cyfrifiad Drwy'r Oesoedd

## Diogelir cyfrinachedd gan y gyfraith

Yn union fel y mae gofyn i bobl yn ôl y gyfraith ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ffurflen cyfrifiad, felly y diogelir cyfrinachedd y wybodaeth honno gan y gyfraith. Mae Deddf y Cyfrifiad 1920 (fel y'i diwygiwyd ym 1991) a'r rheoliadau a wneir ar adeg pob cyfrifiad yn gwahardd rhyddhau unrhyw wybodaeth a roddwyd yn y cyfrifiad yn anghyfreithlon gan unrhyw un sy'n cymryd rhan yn ei gasglu neu mewn unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad. Mae deddfwriaeth debyg yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'n anghyfreithlon, er enghraifft, i Swyddfeydd y Cyfrifiad drosglwyddo unrhyw wybodaeth i unrhyw adran o'r Llywodraeth, neu i unrhyw unigolyn neu sefydliad arall, ac eithrio at y dibenion a nodir yn Neddfau'r Cyfrifiad.

Mae'r gyfraith hefyd yn gwahardd unrhyw aelod o'r cyhoedd a gaiff wybodaeth bersonol gan unrhyw un arall at ddiben cwblhau ffurflen y cyfrifiad (e.e. pennaeth cartref sy'n gorfod cynnwys lletywr ar y ffurflen) rhag datgelu'r wybodaeth honno.

Diogelir cyfrinachedd y wybodaeth a gesglir mewn cyfrifiad ymhellach mewn nifer o ffyrdd:

- Gall unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hŷn ar Ddiwrnod y Cyfrifiad nad yw'n dymuno i aelodau eraill o'r cartref weld eu manylion ofyn am ffurflen ar wahân a llenwi eu ffurflen eu hunain.
- Dim ond er mwyn cynhyrchu ystadegau y defnyddir y wybodaeth a gesglir, ac ni chaiff unrhyw wybodaeth ei rhyddhau sy'n galluogi i unrhyw unigolyn neu gartref gael ei adnabod.
- Bydd gan y system gyfrifiadurol a ddefnyddir i brosesu data'r cyfrifiad gamau diogelu sy'n atal unrhyw fynediad anawdurdodedig i'r wybodaeth.

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:

**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk